

# Crynodeb Gweithredol

Mae codi tâl am wasanaethau carthffosiaeth a dŵr cartrefi yn fater cymhleth ac mae'r crynodeb hwn yn esbonio'r ffeithiau a'r egwyddorion sy'n sail i'r prif argymhellion yn yr adroddiad hwn.

## Y Diwydiant Dŵr a Heriau yn y Dyfodol

- Mae dŵr yn hanfodol i fywyd. Rydym wedi arfer â chael cyflenwad rhad a digonol o ddŵr ac felly rydym yn tueddu i'w drin fel rhywbeth diwerth, bron. Mae'r canfyddiad hwnnw yn prysur ddyddio ac wrth i ni ddechrau teimlo effaith newid yn yr hinsawdd, mae'r bwlch rhwng realaeth a chanfyddiad yn ehangu. Mae'r galw am ddŵr yn cynyddu o ganlyniad i newidiadau demograffig ac mae cyflenwadau dŵr eisoes o dan bwysau yn ardaloedd sychach a mwy poblog de a dwyrain Lloegr. Mae'r rhagfynegiadau diweddaraf ynghylch newid yn yr hinsawdd yn golygu y bydd yr heriau hyn hefyd yn dod yn fwy sylweddol. Bydd hafau yn gynhesach a bydd glawiad yn llai rhagweladwy. Effeithir ar ein system ddraenio gan lifogydd tymhorol difrifol. Mae pryderon eisoes ynghylch fforddiadwyedd biliau dŵr mewn rhai rhannau o'r wlad ac ar gyfer rhai grwpiau o gwsmeriaid, ac mae'r rhain yn debygol o gynyddu.
- At ei gilydd mae'r gyfundrefn reoleiddio wedi gwasanaethu cwsmeriaid yn dda yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf, gan wella safonau ac ansawdd gwasanaethau yn sylweddol. Mae angen i ni yn awr sicrhau bod gennym gyfundrefn reoleiddio a chymhellion ar waith ym mhob rhan o'r diwydiant a all ein helpu i ymdrin â heriau yn y dyfodol. Er mwyn cyflawni hyn bydd angen i ni i gyd weithredu: cwsmeriaid unigol, y llywodraeth, cwmnïau a rheoleiddwyr. Mae angen y cymhellion cywir ym mhob rhan o'r gadwyn gyflenwi o'r pwynt lle y tynnir dŵr i'r ffordd y mae'r cwsmer yn ei ddefnyddio o'r tap. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried rhai o'r camau y bydd angen eu cymryd, yn ein barn ni, i annog pobl i ddefnyddio dŵr yn fwy effeithlon a'r rôl y gall y system codi tâl ei chwarae o ran cyflawni'r nod hwn.
- Gofynnodd y cylch gorchwyl (a nodir yn **Atodiad 1**) i'r adolygiad wneud argymhellion ar gyfer system deg a chynaliadwy o godi tâl. Cyhoeddwyd galwad ffurfiol am dystiolaeth, cynhaliwyd gweithdai ledled y wlad, a gwahoddwyd sylwadau ar adroddiad interim. Mae'r tîm yn hynod ddiolchgar am y cyfraniadau ystyriol a gawsom. Deilliodd dwy neges allweddol o'r ymgynghoriad hwn. Y gyntaf yw bod problemau gwirioneddol yn gysylltiedig â'r system bresennol o godi tâl sy'n seiliedig ar gyflenwadau wedi'u mesur (35 y cant o gartrefi ar hyn o bryd) a gwerth trethadwy'r eiddo sy'n cael ei wasanaethu. Mae'r system sy'n seiliedig ar werth trethadwy eiddo wedi dyddio. Nid yw'n targedu'r rhai y mae angen cymorth arnynt yn effeithiol ac nid yw'n cymell cwsmeriaid i arbed dŵr ychwaith. Mae biliau cwsmeriaid ar incwm isel am gyflenwadau heb eu mesur yn cynyddu'n gyflymach na biliau am gyflenwadau wedi'u mesur, wrth i'r croes-gymorthdaliadau sylweddol (cyfanswm o tua £600m ar hyn o bryd) yn y system sy'n seiliedig ar werth

trethadwy eiddo gael eu lleihau. Yr ail neges yw y dylai fod gan y system codi tâl ddau brif amcan – sef hyrwyddo cyflenwad cynaliadwy o ddŵr sydd hefyd yn fforddiadwy i bawb, yn enwedig y rhai ar incwm isel.

### ***Pennod 3: Egwyddorion Tegwch***

4. Er bod tegwch yn fater o farn, cododd rhai egwyddorion cyffredinol o ran yr hyn sy'n gyfystyr â system codi tâl deg o'r ymgynghoriad, sef y dylai taliadau teg:-
  - gymell unigolion i ddefnyddio dŵr yn effeithiol gan hyrwyddo cyflenwad cynaliadwy o ddŵr;
  - codi tâl yn seiliedig ar y defnydd a wnaed o'r system;
  - cymhwyso egwyddor y "llygrydd sy'n talu" lle bynnag y bo modd;
  - bod yn fforddiadwy i'r rhai ar incwm isel;
  - bod yn deg i gwmnïau;
  - bod yn syml ac yn dryloyw i gwsmeriaid a'u cynnwys mewn penderfyniadau ynghylch prisiau; ac
  - na ddylent fod yn rhy ddrud i'w gweinyddu;
  - bod yn deg i genedlaethau'r dyfodol

Mae'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn ceisio cymhwyso'r egwyddorion hyn.

### ***Pennod 4: Mae Angen i Gostau Diwydiant fod mor Effeithlon â Phosibl***

5. Mae materion sy'n ymwneud nid yn unig â chyflenwad dŵr yn y dyfodol ond hefyd ei gost yn y dyfodol. Mae dŵr yn dal i fod yn rhad iawn ar y cyfan - llai na £1 y dydd i lawer ohonom. Fodd bynnag, mae rhai pobl yn talu cryn dipyn yn fwy na hyn, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn rhannau o'r wlad lle mae costau yn uchel, megis yn Ne-orllewin Lloegr, a'r rhai (gan gynnwys rhai pobl ar incwm isel) sy'n gorfod defnyddio llawer iawn o ddŵr. Mae prisiau hefyd wedi codi yn gyflymach na chwyddiant – 42 y cant mewn termau gwirioneddol ers 1989.
6. Bydd pwysau gwirioneddol tuag at i fyny ar gyfanswm costau o ganlyniad i newidiadau yn y boblogaeth, yr angen i adnewyddu hen seilwaith, sy'n aml yn perthyn i oes Fictoria, effeithiau newid yn yr hinsawdd a gwelliannau amgylcheddol arfaethedig. Mae gwariant cyfalaf yn cyfateb i tua £4.5 biliwn y flwyddyn. Er mwyn atal prisiau rhag cynyddu'n sylweddol, tra'n sicrhau bod cwmnïau dŵr yn parhau i wneud elw teg ar eu buddsoddiadau, mae'n hanfodol bwysig bod seilwaith cyffredinol y sector yn hyrwyddo effeithlonrwydd gan ddefnyddio cymhellion. Cadw costau i lawr yn gyffredinol fydd un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o helpu'r rhai sy'n ei chael yn anodd talu eu bil dŵr. Mae angen newidiadau ym mhob pwynt yn y gadwyn

dosbarthu dŵr; o'r pwynt lle y tynnir dŵr gan gwmnïau dŵr i'r pwynt lle y'i defnyddir gan gwsmeriaid.

7. Mae tîm yr adolygiad o'r farn bod gwahaniaeth rhwng y gwerth rydym yn ei roi ar ddŵr ar hyn o bryd a'i werth yn y dyfodol. Golyga hyn ein bod yn gwneud penderfyniadau yn awr yn seiliedig ar agwedd hen ffasiwn at wasanaethau dŵr sy'n debygol o olygu ein bod yn creu mwy o broblemau ar gyfer y dyfodol – pan all y gwaith o sicrhau na therfir yn ddifrifol ar wasanaethau dŵr a charthffosiaeth nac ar yr amgylchedd fod yn gostus iawn. Mae'r adroddiad yn gwneud dau argymhelliad i unioni hyn:
  - dylai Llywodraethau ac Asiantaeth yr Amgylchedd ystyried yn ofalus argymhellion Adolygiad Cave i **newid y gyfundrefn drwyddedu ar gyfer tynnu** a gollwng dŵr i sicrhau, lle y bo'n briodol, ei bod yn adlewyrchu gwerth prinder dŵr;
  - cyn cyflwyno unrhyw ddeddfwriaeth i gyflawni'r nod hwn, **dylai Ofwat ac Asiantaeth yr Amgylchedd gytuno ar ddulliau o adlewyrchu gwerth llawn dŵr yn y gwaith a wnânt i reoleiddio'r** diwydiant i sicrhau bod hyn yn sail i unrhyw benderfyniadau buddsoddi yn y diwydiant yn y dyfodol, megis gosod mesuryddion neu effeithlonrwydd dŵr, cyn gynted ag y bo modd. **Dylai'r gwaith hwn fod yn seiliedig ar ddadansoddiad diweddaraf Asiantaeth yr Amgylchedd o argaeledd dŵr yn ôl dalgylchoedd;**
8. Dylai strwythur cyffredinol y diwydiant a'r modd y'i rheoleiddir hefyd adlewyrchu'r newidiadau sy'n digwydd. Yn y dyfodol bydd yn bwysig sicrhau y manteisir hyd yr eithaf ar brosesau lleihau costau a chymhellion priodol i sicrhau cynaliadwyedd a fforddiadwyedd. Er mwyn helpu i gyflawni hyn mae'r adroddiad yn argymhell y canlynol:
  - **Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygu'r gyfundrefn gyfuno** yn y diwydiant dŵr i sicrhau ei bod yn ddigon hyblyg i ymateb i heriau yn y dyfodol, tra'n sicrhau bod digon o gymaryddion o hyd i alluogi Ofwat i reoleiddio'r diwydiant yn effeithiol;
  - **Dylai Ofwat sicrhau bod ei ddull rheoleiddio yn cymell cwmnïau i hyrwyddo effeithlonrwydd dŵr** drwy drin mesurau effeithlonrwydd dŵr fel gwariant cyfalaf at ddibenion pennu prisiau, lle mae'r manteision yn cronni dros gyfnod o amser, a chyfrifo effeithlonrwydd gweithredol gweithgarwch effeithlonrwydd dŵr ar wahân i weithgarwch gweithredol arall;
  - gan fod dyletswydd Ofwat i gyfrannu at y nod o sicrhau datblygu cynaliadwy yn cwmpasu newid yn yr hinsawdd, **dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru eu bodloni eu hunain bod y canllawiau a roddant i Ofwat yn nodi'n glir eu dull cyfredol o ymdrin â newid yn yr hinsawdd a'u blaenoriaethau mewn perthynas ag ef.**

9. Mae gan gwsmeriaid rôl bwysig i'w chwarae hefyd o ran cyflawni'r nod hwn. Mae nifer o feysydd lle y credwn y byddai newid yn helpu i ysgogi'r ymddygiad cywir i ymateb i heriau yn y dyfodol. Yn benodol, mae **tîm yr adolygiad yn argymell**:-
- **Ymgyrch genedlaethol ar effeithlonrwydd dŵr**, ochr yn ochr â chymau gweithredu mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni, i sicrhau bod cwsmeriaid yn deall yr heriau sy'n ein hwynebu o ran cyflenwad dŵr: Mae **Pennod 10** yn nodi argymhellion manwl gan gynnwys yr angen am ymgyrchoedd rhanbarthol a lleol wrth wraidd y dull gweithredu cenedlaethol.

### ***Pennod 5: Dosbarthu Costau Ymhlith Cwsmeriaid***

10. Yn ogystal â chymhellion i gadw costau cyffredinol (ac felly prisiau) i lawr, mae hefyd angen ystyried pwy a ddylai dalu am wahanol elfennau o wasanaethau dŵr a charthffosiaeth a pham.
11. Am fod dŵr yn un o hanfodion bywyd, lleisiwyd pryderon ynghylch y gwahanol systemau prisio a geir ledled y wlad ar hyn o bryd. Mae systemau prisio mewn cyfleustodau eraill fwy neu lai yn debyg ledled y wlad. Fodd bynnag, daeth tîm yr adolygiad i'r casgliad bod gwahaniaethau rhanbarthol sylfaenol gwirioneddol mewn costau dŵr a bod perchenogaeth leol ar y costau hyn yn hyrwyddo mwy o effeithlonrwydd. **Felly mae tîm yr adolygiad yn argymell y dylid parhau i godi tâl am ddŵr ar sail ranbarthol a'u cyfartaleddu ar raddfa ddaearyddol briodol o fewn ardal cwmni gan gydnabod y gall lefel y cyfartaleddu newid dros amser.**
12. Cafwyd cefnogaeth gref hefyd i egwyddor y "llygrydd sy'n talu" - sef y dylai'r rhai sy'n achosi costau neu niwed amgylcheddol eu talu. Teimlwyd hefyd y dylai'r rhai a oedd yn cael budd o wasanaeth dalu amdano. Ar y sail hon, **mae tîm yr adolygiad yn argymell bod cwsmeriaid dŵr yn talu am gyflenwad dŵr glân ac am waredu carthffosiaeth fudr.**
13. Mae'r adroddiad hefyd yn ystyried a ddylai taliadau dŵr gynnwys tâl am welliannau amgylcheddol ehangach y dadleuodd llawer o ymatebwyr ei bod yn fwy priodol bod y trethdalwr yn eu talu. Daw'r adroddiad i'r casgliad yr eir i gostau yn bennaf o ganlyniad i wella ansawdd dŵr yfed a chyrraedd safonau priodol ar gyfer gwaredu carthffosiaeth. Nododd tîm yr adolygiad fod y gwariant yn effeithio fwyfwy ar bob ardal. Felly mae'n briodol bod cwsmeriaid dŵr yn talu costau'r **gwelliannau amgylcheddol ehangach hyn.**
14. Fodd bynnag, gall costau cydymffurfio â Chyfarwyddebau Ewropeaidd fod yn uchel iawn a cheir dewisiadau o ran pryd a sut y cydymffurfir â hwy. Mae'n rhaid cynnwys cwsmeriaid dŵr yn y penderfyniadau hyn os bwriedir iddynt dalu'r costau hyn. O ganlyniad **mae tîm yr adolygiad yn argymell, cyn y cytunir ar unrhyw wariant amgylcheddol newydd, y dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

- nodi pa effaith a gâi'r newidiadau ar filiau cwmnïau yn ôl yr ardal;
- sicrhau yr ymgynghorir â chartrefi sy'n gwsmeriaid ar y newidiadau arfaethedig drwy bwyllgorau rhanbarthol y Cyngor Defnyddwyr Dŵr;
- ystyried dulliau amgen o weithredu i sicrhau yr ystyrir barn cwsmeriaid cyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud.

Os na chaiff cwsmeriaid eu cynnwys yn y penderfyniadau hyn, mae'n ddigon posibl y byddant yn teimlo bod prisiau yn annheg ac y byddant yn anfodlon eu talu, fel y digwyddodd yn Ne-orllewin Cymru.

#### *Pennod 6: Opsiynau ar gyfer System Codi Tâl yn y Dyfodol*

15. Mae **Pennod 6** yn ystyried pa opsiynau eraill sydd ar gael i'r system codi tâl gyfredol. Mae'r system codi tâl gymysg gyfredol yn mynd yn fwyfwy annaliadwy wrth i fwy o bobl ddewis mesuryddion i leihau eu biliau eu hunain ac wrth i'r trosglwyddiadau a'r croes-gymorthdaliadau sylweddol yn y system codi tâl sy'n seiliedig ar werth trethadwy ddatod heb unrhyw ymyriadau amgen pan fydd y rhain yn angenrheidiol. Nid yw'r system sy'n seiliedig ar werth trethadwy yn annog cwsmeriaid i ddefnyddio dŵr yn effeithlon ychwaith. Felly, mae angen rhoi system codi tâl fwy effeithlon ac effeithiol yn ei lle sy'n bodloni egwyddorion tegwch yr adolygiad orau.
16. Nid yw gwerth trethadwy na'r dreth gyngor, y bwriadwyd iddynt fod yn drethi eiddo, yn nodi cartrefi y mae angen cymorth arnynt i dalu eu biliau dŵr yn ddigon manwl. Nid yw seilio unrhyw dariff ar y systemau codi tâl hyn yn darparu cymhellion effeithiol ar gyfer effeithlonrwydd dŵr ychwaith. **Felly mae'r adolygiad yn argymhell na ddylai gwerth trethadwy na bandiau treth gyngor ffurfio'r brif sail hirdymor ar gyfer codi tâl am ddŵr.**
17. **Am na fyddai taliadau yn seiliedig ar y math o eiddo neu gyfradd wastad fesul eiddo yn cymell unigolion i ddefnyddio dŵr yn effeithlon na thargedu'r rhai y mae angen cymorth arnynt yn effeithiol, nid yw tîm yr adolygiad yn argymhell y dylid eu defnyddio ychwaith. Nid argymhellir system amgen yn seiliedig ar nifer y bobl sy'n byw mewn cartref ychwaith, am na chesglir gwybodaeth am nifer y bobl sy'n byw mewn cartref yn systematig.**
18. **Mae tîm yr adolygiad yn argymhell y dylai'r system codi tâl yn y dyfodol fod yn seiliedig yn gyffredinol ar faint o ddŵr a ddefnyddiwyd ac felly ar system fesur.** Mae'r dull gweithredu hwn yn bodloni'r holl egwyddorion tegwch - ac eithrio fforddiadwyedd o dan rai amgylchiadau. Dyma'r dull codi tâl sydd fwyaf tebygol o annog cwsmeriaid i ddefnyddio dŵr yn effeithlon a'r un a fydd yn ategu'r gwaith o ddatblygu cyflenwad dŵr cynaliadwy orau. Dylai sail taliadau dŵr barhau i symud i ffwrdd o'r system gymysg gyfredol tuag at un sy'n seiliedig yn bennaf ar faint o ddŵr a ddefnyddiwyd gan bob cwsmer. **Dylai pa mor gyflym rydym yn newid i system codi tâl am gyflenwad wedi'i fesur ddibynnu ar y costau ac argaeledd cymorth effeithiol i'r rhai sydd ei angen.**

19. Daeth tîm yr adolygiad i'r casgliad nad yw'r un o'r systemau codi tâl eraill sy'n seiliedig ar gyflenwadau heb eu mesur a allai ddisodli'r system codi tâl sy'n seiliedig ar werth trethadwy yn welliant sylweddol o ran yr egwyddorion tegwch. **Felly mae tîm yr adolygiad yn argymell, wrth newid i system fesur lawn, y dylai cwsmeriaid sy'n cael cyflenwad heb ei fesur ar hyn o bryd barhau i gael biliau sy'n seiliedig ar werth trethadwy.**

### *Pennod 7 :Ein Cynigion ynghylch Mesuryddion*

20. Ystyrir costau a buddiannau mesuryddion ym **Mhennod 7**, a nodir y dadansoddiad manwl yn **Atodiad 6**.
21. Mae polisi cyfredol y llywodraeth a'r rheoleiddiwr ar fesuryddion braidd yn aneglur ac o dan rai amgylchiadau ymddengys ei fod yn anghyson. O ganlyniad, mae cwmnïau wedi drysu ynghylch yr hyn a ddisgwylir ganddynt.
22. **Felly mae tîm yr adolygiad yn argymell y dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru ailystyried y polisi ar fesuryddion dŵr cartrefi yng ngoleuni'r amcanestyniadau ar gyfer newid yn yr hinsawdd, y twf disgwyliedig yn y boblogaeth a gwaith diweddaraf Asiantaeth yr Amgylchedd ar Strategaethau Asesu a Rheoli Dalgylchoedd.** Gallai'r dull gweithredu diwygiedig a argymhellwyd gan dîm yr adolygiad (a nodir ym mharagraff 24 isod) sicrhau bod gan 80 y cant o'r cartrefi yn Lloegr fesuryddion erbyn 2020. Bydd angen newid deddfwriaeth i gyflawni'r nod hwn.
23. Mae gosod mesuryddion yn golygu newid o un system codi tâl i un arall. Mae'r newid hwnnw yn effeithio ar y modd mae costau wedi'u dosbarthu rhwng cwsmeriaid. Mae'r newid eisoes yn mynd rhagddo, er ei fod yn digwydd ar wahanol gyflymderau mewn gwahanol leoedd, a heb unrhyw ddealltwriaeth ar ran y cwsmer o'r hyn sy'n digwydd a pham. Er mwyn sicrhau bod y newid o'r naill system i'r llall yn digwydd yn effeithiol ac yn effeithlon bydd angen gwaith rheoli ac arweiniad rhagweithiol. **Mae tîm yr adolygiad yn argymell y dylai Ofwat arwain y broses newid hon yn rhagweithiol**, gan roi arweiniad ar faterion yn ymwneud â mesuryddion a fforddiadwyedd. Fel rhan o'i rôl arwain, **dylai Ofwat gyhoeddi adroddiad bob dwy flynedd** ar y cynnydd a wnaed o ran gosod mesuryddion.
24. Er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd yn awr a'r hyn a fydd yn digwydd yn y dyfodol, a sicrhau bod y broses yn cael ei rheoli'n effeithiol mae angen mabwysiadu dull mwy unedig o weithredu. **Mae tîm yr adolygiad yn argymell y dylai Ofwat ddatblygu methodoleg y cytunwyd arni ar gyfer asesu costau a buddiannau defnyddio mesuryddion.** Gan weithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd, dylai Ofwat ddatblygu'r cyfryw fethodoleg, gan ystyried y manteision ehangach o ran yr amgylchedd a charbon a nodwyd gan dîm yr adolygiad yn ogystal â'r costau llai (20% i 50% o'r costau gosod) sy'n deillio o ddull mwy systematig o fesur yn hytrach na dibynnu i raddau helaeth ar y cwsmer unigol i ddewis cael mesurydd.

25. Nid yw tîm yr adolygiad yn argymell y dylid gorfodi pob cwsmer i gael mesurydd. **Mae tîm yr adolygiad yn argymell, mewn ardaloedd lle mae'r dadansoddiad cost a budd ehangach (sy'n cynnwys costau o ran yr amgylchedd ac allyriadau carbon) yn nodi y byddai'n fuddiol, y dylid cyflwyno cynlluniau gosod mesuryddion systematig sy'n cwmpasu ardaloedd cyfan. Dylai cwmnïau fynd ati'n systematig i osod mesuryddion yng nghartrefi unigolion sy'n gwneud llawer o ddefnydd dewisol o ddŵr a phan fydd y meddiannydd yn newid, oni bai bod Ofwat yn cytuno y byddai'r cyfryw ddull gweithredu yn amharu ar eu cwsmeriaid.** Dylid llunio'r cyfryw bolisïau i leihau cost gyffredinol gosod mesuryddion i gwsmeriaid. Er mwyn gwneud hyn bydd angen pasio deddfwriaeth. **Dylid hefyd parhau i roi'r hawl i bob cwsmer ddewis mesurydd.**
26. Am fod technoleg gosod mesuryddion a bilio yn datblygu'n gyflym ar gyfer y sector ynni a'r sector dŵr, mae synergeddau posibl wrth gydgyfylltu'r gwaith o osod mesuryddion dŵr ac ynni. **Mae tîm yr adolygiad yn argymell y dylai Ofwat sefydlu grŵp mesuryddion dŵr call,** gan ddod ag Asiantaeth yr Amgylchedd, cwmnïau dŵr ac eraill at ei gilydd i sicrhau bod mesuryddion yn y diwydiant dŵr a'r diwydiant ynni yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'i gilydd ac nad yw'r diwydiant dŵr yn colli unrhyw gyfleoedd i gael budd o'r rhaglen genedlaethol i gyflwyno mesuryddion ynni call.
27. **Mae tîm yr adolygiad yn argymell y dylai pob cartref, gan gynnwys y rhai mewn adeiladau amfeddiannaeth, gael ei fesur yn unigol lle bynnag y bo modd. Mae'n rhaid i bob eiddo newydd gael ei fesur yn unigol.**
28. Os na ellir mesur eiddo yn unigol ac yr hoffai'r perchennog gael mesurydd, **mae tîm yr adolygiad yn argymell y dylid defnyddio tâl a aseswyd yn seiliedig ar y defnydd lleol o ddŵr a fesurwyd.**

### *Pennod 8 :Tariffau wedi'u Mesur*

29. Mae cysylltu biliau â faint o ddŵr a ddefnyddiwyd yn elfen allweddol o'r cynnig i ddiwygio strwythurau codi tâl. Wrth i fesuryddion ddod yn fwy cyffredin, mae angen ystyried pa fath o dariffau y dylid eu defnyddio. Mae **Pennod 8** yn ystyried hyn yn fanylach, gan gymhwyso'r egwyddorion tegwch a ddatblygwyd ym **Mhennod 3**.
30. Gall newid y strwythur tariffau sy'n seiliedig ar gyflenwad wedi'i fesur newid dosbarthiad costau rhwng mathau o gwsmeriaid yn sylweddol. Dylai cynllun tariffau ymateb i amgylchiadau lleol a dymuniadau cwsmeriaid lleol, ond ceir ystyriaethau ehangach hefyd, y mae angen rhoi sylw iddynt yn genedlaethol. Felly mae tîm yr adolygiad yn argymell y dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried diweddarau canllawiau i Ofwat ar yr egwyddorion gweithredol y dylid eu mabwysiadu o ran codi tâl am gyflenwad wedi'i fesur, gan ystyried yr argymhellion canlynol.

31. **Mae tîm yr adolygiad yn argymhell y dylai'r ymagwedd tuag at dariffau fod mor hyblyg â phosibl o fewn fframwaith o egwyddorion i'w gwneud yn bosibl i dariffau arloesol ddatblygu ac i gwmnïau adlewyrchu amgylchiadau lleol a dymuniadau cwsmeriaid.**
32. **Mae tîm yr adolygiad yn argymhell y dylai Ofwat, yn unol â chanllawiau newydd y llywodraeth, roi canllawiau i gwmnïau ar yr egwyddorion y dylid eu mabwysiadu wrth godi tâl yn seiliedig ar gyflenwadau wedi'u mesur. Dylai hyn gynnwys canllawiau ar y cydbwysedd rhwng taliadau sefydlog a thaliadau cyfeintiol gan ystyried pa mor bwysig ydyw bod y system codi tâl yn cymell unigolion i ddefnyddio dŵr yn effeithlon. Nodir cynigion manwl ym Mhennod 8.**
33. **Dylai Ofwat a chwmnïau sicrhau bod pob cartref yn talu cyfran deg o gostau sefydlog hyd yn oed os yw'r defnydd a wnânt o'r gwasanaeth yn gymharol fach.**
34. Nid oes unrhyw dystiolaeth ar hyn o bryd o effeithiau gwahanol dariffau ar gyflenwad wedi'i fesur. Mae'n bwysig bod **Ofwat a'r cwmnïau dŵr yn rhannu gwybodaeth o'r amrywiaeth eang o dreialon tariffau sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd.** Yn seiliedig ar dystiolaeth gyfredol, **mae tîm yr adolygiad o'r farn mai tariffau tymhorol sydd â'r potensial mwyaf.** Mae tariffau blociau sy'n codi yn gofyn am gyfraddau meddiannaeth nad ydynt ar gael fel arfer ac nad ydynt yn targedu'n benodol y rhai y mae angen cymorth arnynt. Nid yw tariffau blociau sy'n gostwng yn cymell unigolion i ddefnyddio dŵr yn effeithlon. Mae angen asesu treialon tariffau blociau sy'n codi, treialon tariffau tymhorol a threialon tariffau oriau brig i weld a ddylid eu defnyddio'n ehangach er lles cwsmeriaid yn gyffredinol.

### ***Pennod 9: Gwasanaethau Carthffosiaeth***

35. Mae'r modd y mae prisiau wedi'u dosbarthu rhwng gwahanol agweddau ar y gwasanaethau carthffosiaeth a ddarperir – dŵr budr, draenio dŵr wyneb a draenio priffyrdd – yn amrywio'n fawr rhwng cwmnïau. Mae tîm yr adolygiad wedi'i chael yn anodd esbonio'r amrywiadau hyn – a chyhyd â bod y gwasanaethau hyn wedi'u bwndelu'n dynn nid yw'n gwneud fawr o wahaniaeth i filiau cwsmeriaid. Fodd bynnag, os newidir y modd y telir am y gwasanaethau hyn, bydd y modd y dosberthir costau yn dod yn bwysicach i gwsmeriaid. **Felly mae Pennod 9 yn argymhell y dylai Ofwat ystyried yr amrywiadau presennol yng nghyfansoddiad (faint a sail) biliau carthffosiaeth (ar gyfer gwasanaethau carthffosiaeth dŵr budr, draenio dŵr wyneb a draenio priffyrdd) a nodi a oes angen rhai egwyddorion cyffredinol ar gyfer y maes codi tâl hwn.**
36. Mae'r strwythurau cost a faint o ddŵr a ddefnyddir mewn perthynas â gwasanaethau carthffosiaeth fudr ar gyfer cartrefi sy'n gwsmeriaid yn debyg iawn i'r strwythurau cost a faint o ddŵr a ddefnyddir ar gyfer eu cyflenwad dŵr. Felly mae tîm yr adolygiad yn argymhell y dylid codi tâl **am wasanaethau carthffosiaeth fudr ar yr un sail â chyflenwad dŵr glân.**



37. Darperir gwasanaethau draenio dŵr wyneb a draenio priffyrdd a chodir tâl amdanynt ar hyn o bryd mewn ffyrdd nad ydynt yn annog atebion cost leiaf nac yn cymell unigolion i ddefnyddio'r system garthffosiaeth yn effeithlon. Am fod llifogydd yn fwy tebygol o ddigwydd oherwydd newid yn yr hinsawdd, mae **tîm yr adolygiad yn argymhell bod llywodraethau ac Ofwat yn ystyried sut y gall y system codi tâl gymell cwsmeriaid i ddraenio llai o ddŵr glaw** i mewn i garthffosydd cyhoeddus. Dylid ystyried graddfa symudol o daliadau i annog pobl i gymryd camau priodol.
38. Am na all cartrefi sy'n gwsmeriaid dŵr effeithio ar faint o ddŵr sy'n draenio oddi ar ffyrdd mae **tîm yr adolygiad yn argymhell y dylai llywodraethau ystyried trosglwyddo taliadau am ddraenio priffyrdd o gwsmeriaid dŵr i awdurdodau priffyrdd lleol. Byddai hyn yn cymell awdurdodau priffyrdd i leihau'r dŵr ffo o briffyrdd cymaint â phosibl** (yn enwedig i mewn i garthffosydd cyfunol) - mater sy'n llawer pwysicach erbyn hyn am fod llifogydd yn fwy cyffredin.
39. **Ar y lleiaf, dylai llywodraethau osod dyletswydd ar awdurdodau priffyrdd lleol i gydweithio â chwmnïau carthffosiaeth i leihau cyfanswm costau draenio priffyrdd cymaint â phosibl.**
40. **Awdurdodau priffyrdd lleol ddylai dalu am gostau draenio priffyrdd sy'n ymwneud ag unrhyw gysylltiadau newydd â'r garthffos gyhoeddus.**

#### *Pennod 10: Effeithlonrwydd Dŵr*

41. Un thema sy'n rhedeg drwy'r adroddiad hwn yw bod angen i bawb ddefnyddio dŵr yn fwy effeithlon er mwyn sicrhau cyflenwadau cynaliadwy. Mae **Pennod 10** yn ystyried yr amrywiaeth o fesurau sydd eu hangen i gyflawni'r nod hwn, yn ogystal â system codi tâl yn seiliedig ar gyflenwadau wedi'u mesur.
42. **Mae tîm yr adolygiad yn argymhell y dylai Ofwat barhau i ystyried ffyrdd o gymell cwmnïau i hybu effeithlonrwydd dŵr, gan gynnwys drwy wahanu gwariant gweithredol ar effeithlonrwydd dŵr oddi wrth wariant gweithredol arall a thrwy ganiatáu i rai mesurau effeithlonrwydd dŵr gyfrif fel gwariant cyfalaf lle y bydd y manteision yn cronni dros gyfnod o amser.**
43. Dylai pob cartref newydd fod yn ddŵr-effeithlon. Mae'r costau ychwanegol yn fach ond gallai'r manteision fod yn sylweddol. **Felly mae tîm yr adolygiad yn argymhell y dylai lefel 3 y Cod Cartrefi Cynaliadwy fod yn orfodol i bob cartref newydd**, p'un a ydynt yn cael eu hadeiladu fel tai cymdeithasol neu fel tai preifat.
43. Fodd bynnag, bydd y rhan fwyaf ohonom yn parhau i fyw yn y tai a adeiladwyd eisoes felly mae angen gwneud mwy o ymdrech i sicrhau bod y stoc dai bresennol yn defnyddio dŵr yn fwy effeithlon. Tra'n cydnabod bod effeithlonrwydd dŵr yn codi rhai materion gwahanol i effeithlonrwydd ynni, **mae tîm yr adolygiad yn argymhell y dylai unrhyw gynllun**

**effeithlonrwydd ynni ar gyfer cartrefi sy'n bodoli eisoes ymgorffori mesurau effeithlonrwydd dŵr (er enghraifft, rhaglen Warm Front). Dylid annog cwmnïau dŵr i weithio gyda landlordiaid cymdeithasol a chymdeithasau tai pan fyddant yn adnewyddu cartrefi i wella effeithlonrwydd dŵr tai cymdeithasol. Dylai arbedion CO<sub>2</sub> o fesurau effeithlonrwydd dŵr hefyd gyfrif tuag at dargedau CO<sub>2</sub> cwmnïau dŵr.**

44. **Dylai llywodraethau annog y defnydd o ffitiadau a chyfarpar sy'n defnyddio dŵr yn fwy effeithlon drwy:-**

- **Ystyried sut y gall plymwyr ac adeiladwyr roi cyngor call ar ffitiadau i ddeiliaid tai o ran effeithlonrwydd dŵr.**
- **Sicrhau mai dim ond cynhyrchion dŵr-effeithlon y gellir eu gwerthu ar farchnad y DU;**
- **Adolygu cynlluniau labelu cyfredol i sicrhau bod cynllun cenedlaethol sy'n rhoi gwybodaeth glir a defnyddiol i gwsmeriaid am ffitiadau a chyfarpar. Dylai gwneud y cynllun yn orfodol os na all dull gwirfoddol gyflawni'r nodau hyn.**

45. **Mae angen gwneud gwaith pellach ar gostau a buddiannau mesurau effeithlonrwydd dŵr i sicrhau bod y cyfryw fesurau yn gosteffeithiol. Bydd yn bwysig sicrhau bod y gwaith hwn yn ystyried y manteision ehangach (gan gynnwys arbedion CO<sub>2</sub> a niwed o ganlyniad i dynnu gormod o ddŵr) a gwerth llawn dŵr fel yr argymhellir ym mhennod 4 ac Atodiad 6.**

### ***Pennod 11: Fforddiadwyedd***

46. Mae fforddiadwyedd biliau dŵr eisoes yn achosi problemau i rai cwsmeriaid ar incwm isel, a bydd angen cymorth ar fwy o gwsmeriaid yn ystod y broses o newid i system codi tâl yn seiliedig ar gyflenwadau wedi'u mesur oherwydd y newid yn y modd y mae costau wedi'u dosbarthu rhwng cwsmeriaid. Ni all y pwysau tuag at i fyny ar gostau ond cynyddu problemau fforddiadwyedd yn y dyfodol. Dylid targedu unrhyw fesurau fforddiadwyedd yn ofalus iawn at y rhai y mae angen cymorth arnynt. Er na ellir gofyn i'r sector dŵr ddatrys problemau tloidi cyffredinol, ac er na ddylid gofyn iddo wneud hynny, mae gan y cwmnïau ac Ofwat rywfaint o rôl i'w chwarae o ran fforddiadwyedd. Er mwyn mynd i'r afael â materion fforddiadwyedd yn fwy effeithiol yn y dyfodol, mae angen i Ofwat a'r cwmnïau fod yn fwy rhagweithiol ac arloesol i sicrhau bod pobl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

47. O gofio'r cymorth sylweddol (tua £180m y flwyddyn, allan o drosglwyddiadau rhwng cwsmeriaid gwerth dros £0.5bn) gyda biliau a roddir i gwsmeriaid ar incwm isel gan y system codi tâl sy'n seiliedig ar werth trehadwy, **mae tîm yr adolygiad yn argymhell y dylid rhoi pecyn o gymorth ar waith sydd wedi'i dargedu'n fwy gofalus ac effeithiol:-**

- **Dylid cadw Watersure ar gyfer y rhai ar incwm isel sy'n gorfod defnyddio llawer o ddŵr am resymau meddygol. Ond dylid capio biliau ar naill ai'r biliau cyfartalog cenedlaethol neu ranbarthol – p'un bynnag yw'r isaf. Rhaid hyrwyddo'r cynllun. Ceir argymhellion manwl ym mharagraffau 11.6.1 – 11.6.8; amcangyfrifir y bydd y cynllun yn costio hyd at £16m;**
- **Dylid cynnig disgownt ar ei fil i bob cwsmer sy'n cael cyflenwad wedi'i fesur.** Mae'r dull gweithredu hwn yn rhoi cymorth tra'n cadw'r cymhellion i beidio â gwastraffu dŵr. Ceir argymhellion manwl ym mharagraffau 11.7.1 – 11.7.4: amcangyfrifir y bydd hyn yn costio £330m; **neu**
- Os yw'r pecyn uchod yn rhy ddrud, dylid o leiaf gyflwyno **cynllun disgownt ar gyfer cartrefi â phlant sydd ar incwm isel.** Dyma'r grŵp y dengys ymchwil ei fod yn wynebu'r risg fwyaf. Ceir argymhellion manwl ym mharagraffau 11.8.1 – 11.8.8: amcangyfrifir y bydd y cynnig hwn yn costio £110m.

Byddai angen i'r pecyn hwn gael ei wneud yn orfodol gan Lywodraethau.

48. **Ceir dadleuon cryf y dylai'r llywodraeth ariannu'r pecyn hwn.** Roedd ymatebwyr i'n hymgyngoriad yn bendant o'r farn y dylai'r llywodraeth fod yn mynd i'r afael â materion tlodi cyffredinol, ac y dylid talu am hyn ar sail gynyddol drwy'r trethdalwr cenedlaethol. **Neu gallai'r cwsmer dŵr lleol dalu.** Mae rhywfaint o resymeg yn perthyn i hyn am fod trosglwyddiadau cyfredol yn y system sy'n seiliedig ar werth trethadwy yn digwydd yn lleol. Mae tîm yr adolygiad yn amcangyfrif bod cyfanswm o tua £600m o drosglwyddiadau presennol yn y system sy'n codi tâl yn seiliedig ar werth trethadwy. Mae tua £180m o'r cyfanswm hwn yn drosglwyddiad o gartrefi incwm uchel i gartrefi incwm isel. Bydd y lefel hon o drosglwyddo yn lleihau i sero pan fydd gan bawb fesuryddion, ac mae tîm yr adolygiad o'r farn y dylid parhau i roi lefel debyg o gymorth am resymau fforddiadwyedd.
49. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod ymchwil y Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn dangos bod cwsmeriaid yn gyndyn iawn o dalu dros eraill. Mae ymatebion wedi nodi'n glir nad yw trosglwyddiadau rhwng cwmnïau i ymdrin â fforddiadwyedd yn dderbyniol. Ond, wrth reswm, **mater i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru yw penderfynu sut y dylid ariannu'r mesurau hyn.**
50. Mae tîm yr adolygiad yn bendant o'r farn, yn ogystal â chymorth gyda biliau, **y dylid targedu cymorth effeithlonrwydd dŵr at gwsmeriaid ar incwm isel, yn enwedig pensynwyr, fel rhan o raglenni cyhoeddus sy'n bodoli eisoes megis Warm Front.** Dylai Ofwat a'r cwmnïau dŵr hefyd gytuno ar gynlluniau i'r cwmnïau sydd wedi'u targedu at gwsmeriaid â blaenoriaeth ym mhob ardal; dylai fod yn bosibl caniatáu costau'r cynlluniau hyn o fewn y fframwaith rheoleiddio. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn ardaloedd lle mae'r pris yn uchel – megis ardal cwmni Dŵr De-orllewin Lloegr.

51. Oherwydd y newidiadau sy'n digwydd yn y diwydiant a'r amgylchedd, mae'n bwysig bod llawer mwy o sylw yn cael ei roi i faterion fforddiadwyedd a dyled yn y dyfodol nag a roddwyd iddynt yn y gorffennol, ac felly **mae tîm yr adolygiad yn argymhell y dylai Ofwat lunio adroddiad blynyddol ar faterion fforddiadwyedd a dyled i sicrhau bod pob cwmni yn chwarae rôl a bod profiad ynglŷn â phwy sydd angen cymorth yn cael ei rannu. Dylai Ofwat roi cyngor i'r llywodraeth os bydd angen ymestyn y pecyn presennol o gymorth. Dylai Ofwat hefyd hyrwyddo tariffau cymdeithasol nad ydynt yn cynnwys croes-gymorthdaliadau rhwng cwsmeriaid lle y bo hynny'n briodol.**

### *Pennod 12: Dyled*

52. Mae lefelau drwg-ddyledion yn y diwydiant dŵr yn llawer uwch nag yn y diwydiant ynni, ond mae biliau cyfartalog yn llawer llai. Ceir rhyngweithio cymhleth rhwng deddfwriaeth, gweithgarwch rheoleiddio ac ymddygiad cwmnïau sydd wedi arwain at y lefelau uchel iawn hyn o ddrwg-ddyledion, sy'n cynyddu, ar gyfer cwmnïau dŵr a charthffosiaeth. Ychwanegir y drwg-ddyledion na ellir eu hadennill a'r costau yr eir iddynt wrth geisio adennill drwg-ddyledion at filiau'r rhai sy'n talu - sy'n ychwanegu tua £12 y flwyddyn ar hyn o bryd. Felly mae'n hanfodol y lleiheir lefel a chostau drwg-ddyledion, ac yr eir i'r afael â'r holl faterion sy'n achosi'r lefel bresennol o gostau sy'n gysylltiedig â drwg-ddyledion.
53. **Mae tîm yr adolygiad yn argymhell, fel mater o flaenoriaeth, y dylid diwygio Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 i ddarparu ar gyfer unigolyn a enwyd sy'n gyfrifol am dalu'r bil.** Nodir cynigion manwl ym **Mhennod 12** ac **Atodiad 9**. Ar hyn o bryd mae'n rhaid i gwmnïau dŵr ddibynnu ar wybodaeth gan gwsmeriaid neu'r landlord i wybod pwy sy'n meddiannu eiddo. O gofio na chaniateir datgysylltu cyflenwad cartrefi sy'n gwsmeriaid, yn wahanol i bob cyfleustod arall, mae tîm yr adolygiad o'r farn bod y newid statudol i unigolyn a enwyd yn dod yn fwy hanfodol. Mynegwyd teimladau cryf gan ymatebwyr o blaid ac yn erbyn defnyddio falfiau llif llai. O gofio'r gwaharddiad ar ddatgysylltu, mae tîm yr adolygiad o'r farn bod achos dros gryfhau cosbau yn y system ar gyfer y rhai a all fforddio talu ond nad ydynt yn talu yn fwriadol. **Felly mae tîm yr adolygiad yn argymhell y dylai llywodraethau ystyried a ddylai cwmnïau allu ceisio adennill dyledion yn gyfreithlon drwy lysoedd ynadon yn y dyfodol.**
54. Dylid mynd i'r afael â phroblemau a allai achosi i unigolion fynd i ddyled cyn i hynny ddigwydd. Fel rhan o hyn, **mae tîm yr adolygiad o'r farn y byddai'n fuddiol i gwsmeriaid a chwmnïau pe bai llywodraeth ganolog a llywodraeth leol yn trosglwyddo gwybodaeth i gwmnïau dŵr am gwsmeriaid sy'n cael budd-daliadau sy'n agored i niwed.**
55. Mae angen i'r rheoleiddiwr chwarae rhan hefyd wrth newid y ffocws o reoli dyledion i atal dyledion. **Mae tîm yr adolygiad yn argymhell y dylai Ofwat wneud y canlynol:**

- Gyda'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr, **cyhoeddi adroddiad blynyddol ar y gwaith rheoli dyledion** a wneir gan gwmnïau, i nodi'r cynnydd a wnaed a sicrhau bod cwmnïau bob amser yn gweithredu arfer gorau;
- **dileu costau drwg-ddyledion fel eitem hysbysadwy** mewn rheolaethau ar brisiau unwaith y bydd darpariaethau deddfwriaeth newydd ar waith i sicrhau y gall cwmnïau filio cwsmer a enwyd;
- **annog cwmnïau i gyflwyno tariffau cymdeithasol** sy'n helpu unigolion i ad-dalu dyledion a thalu biliau yn y dyfodol, gan ddod â manteision i bob cwsmer.

56. Mae'n rhaid i gwmnïau roi cymorth digonol hefyd er mwyn i gwsmeriaid allu osgoi mynd i ddyled a rheoli unrhyw ddrwg-ddyledion sydd ganddynt yn haws. **Mae tîm yr adolygiad yn argymhell y dylai cwmnïau:**

- **dynnu sylw at y cymorth sydd ar gael i'r rhai mewn dyled;**
- **sicrhau bod biliau yn hawdd eu deall** ac yn cynnig gwahanol ffyrdd o dalu a bod cwsmeriaid yn cael biliau ar gyfnodau y cytunwyd arnynt;
- parhau i **gynnig tariffau cymdeithasol** i'r rhai sy'n ceisio talu eu dyledion. Mae'n amlwg bod cysylltiadau â sefydliadau cyngori trydydd parti wedi bod yn gadarnhaol iawn;
- **gweithio'n rhagweithiol gyda Chanolfan Byd Gwaith** i sicrhau bod cwsmeriaid a all gael budd o gynllun WaterDirect yn gwneud hynny; dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau ystyried y posibilrwydd o gadw pobl ar y cynllun unwaith y bydd dyled wedi'i had-dalu

### *Pennod 13: Rhoi Cwsmeriaid yn Gyntaf*

57. Mae cwsmeriaid dŵr a charthffosiaeth yn gaeth - i'w cwmni dŵr a charthffosiaeth lleol ac i lywodraethau lleol a chenedlaethol a all fanteisio ar hyn drwy drosglwyddo costau i gwsmeriaid dŵr heb roi cyfle iddynt ddylanwadu ar yr hyn sy'n cael ei ychwanegu at eu bil. Daw Pennod 13 i'r casgliad bod angen prosesau llawer gwell ar gyfer ymgynghori â chwsmeriaid ac atebolrwydd cwsmeriaid i helpu i liniaru canlyniadau negyddol y sefyllfa hon. At hynny, er mwyn i'r broses ymgynghori ac atebolrwydd hon weithio, mae'n rhaid i gwsmeriaid allu cael gafael ar y wybodaeth sydd ei hangen arnynt mewn amrywiaeth o ffyrdd.

58. **Mae tîm yr adolygiad yn argymhell y dylai fod gofyniad newydd ar y llywodraeth i ymgynghori â chwsmeriaid cyn cytuno ar unrhyw welliannau i ansawdd y dŵr y bydd cwsmeriaid dŵr yn talu amdanynt. Wrth wneud hyn, bydd angen i'r llywodraeth nodi costau a buddiannau'r cyfryw welliannau, gan gynnwys yr effaith ar filiau cartrefi, a sicrhau ymgynghori effeithiol drwy'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr a'r broses bedeir-ran.** Os oes opsiynau, dylid derbyn barn gyfunol y cwsmeriaid. **Mae'n bwysig bod y Cyngor Defnyddwyr Dŵr**, gan ymgynghori â'r llywodraeth, Ofwat, ac aelodau'r grŵp pedeir-ran, **yn rhoi trefniadau ar waith i ymgysylltu ac ymgynghori'n barhaus â**

**chwsmeriaid ynghylch rheolaethau ar brisiau a materion eraill, ar sail ranbarthol neu ar sail cwmni dŵr.**

59. Yn yr adolygiad nesaf o reolaethau ar brisiau, mae Ofwat yn bwriadu defnyddio System newydd o Gymhellion Gwasanaeth (SIM) i asesu pa mor dda y mae cwmnïau yn ymateb i'w cwsmeriaid. **Mae tîm yr adolygiad yn argymhell y dylai Ofwat, y Cyngor Defnyddwyr Dŵr a chwmnïau gyhoeddi ac esbonio gwybodaeth am berfformiad cwmnïau yn erbyn y SIM ar eu gwefannau a thrwy ddulliau priodol eraill yn rheolaidd i sicrhau bod cwsmeriaid yn ymwybodol o ba mor dda y mae eu cwmni yn perfformio.**
60. Er mwyn cadw ystyriaethau gwasanaeth cwsmeriaid ar flaen y meddwl, **mae tîm yr adolygiad yn argymhell y dylai Ofwat gyhoeddi dadansoddiad blynyddol o ymatebolrwydd cwmnïau i gwsmeriaid. Mae hefyd yn argymhell y dylai Ofwat gyhoeddi 'tablau cynghrair' bob chwe mis yn seiliedig ar wybodaeth feintiol a chanlyniadau arolygon, gan alluogi cwmnïau i fonitro'r cynnydd y maent wedi'i wneud mewn perthynas â chwmnïau eraill a gofynion y meini prawf asesu.**
61. Yn olaf, **mae tîm yr adolygiad yn argymhell**, er mwyn pwysleisio'r ffaith bod angen i gwmnïau gymryd eu cwsmeriaid o ddifrif, **y dylid ymestyn y terfyn amser ar gyfer mynd ar ôl toriadau a chosbi cwmnïau i bum mlynedd.**

#### *Pennod 14: De-orllewin Lloegr*

62. Cyflwynwyd sylwadau cryf i dîm yr adolygiad ar annhegwch a fforddiadwyedd y biliau dŵr a charthffosiaeth cyfunol uchel yn ardal cwmni Dŵr De-orllewin Lloegr. Ar ôl edrych ar y dystiolaeth sydd ar gael, mae tîm yr adolygiad wedi dod i'r casgliad bod lefel gyfredol biliau, o gymharu ag ardaloedd eraill, yn adlewyrchu cyflwr gwael y seilwaith carthffosiaeth lleol pan breifateiddiwyd y cwmni, a oedd islaw'r safonau a oedd i'w cael bryd hynny yng ngweddill y wlad. O ganlyniad, er mwyn codi seilwaith De-orllewin Lloegr i'r un lefelau, fwy neu lai, ag a geir ar hyn o bryd mewn mannau eraill bu'n rhaid gweithredu rhaglen fuddsoddi newydd lawer mwy sylweddol mewn seilwaith carthffosiaeth (fesul pen o'r boblogaeth). Mae'r buddsoddiad sylweddol hwn (dros £1bn), ynghyd â'r boblogaeth leol fach, yn esbonio pam y mae biliau yn Ne-orllewin Lloegr mor uchel yn awr o gymharu ag ardaloedd eraill – a pham yr ystyrir eu bod yn annheg. Mae'r biliau cyfartalog uchel, ynghyd â'r nifer fawr o gartrefi â mesuryddion, hefyd yn cynyddu problemau fforddiadwyedd yn lleol am fod mwy o'r trosglwyddiadau yn y system codi tâl sy'n seiliedig ar werth trethadwy wedi'u dileu.
63. O ran rhwymedïau posibl i fynd i'r afael ag annhegwch, mae tîm yr adolygiad o'r farn, yn fras, fod dewis rhwng:
- Lleihau cost y buddsoddiadau a wnaed ers preifateiddio i gwsmeriaid presennol cwmni Dŵr De-orllewin Lloegr (ac, felly, effaith y

buddsoddiad hwn ar filiau cyfredol) drwy fesur cywirol untro penodol; neu ryw fath o drosglwyddiad blynyddol;

- Derbyn baich buddsoddi ôl-breifateiddio a newid y ffordd y mae'r baich hwnnw wedi'i rannu gan gwsmeriaid yn Ne-orllewin Lloegr mewn ffordd gynyddol sydd hefyd yn gosteffeithiol.

64. Byddai unrhyw addasiad untro i fynd i'r afael â'r materion buddsoddi hanesyddol hyn yn gofyn am ymrwymiad ariannol ar ran y llywodraeth a byddai angen ei gynllunio, ei esbonio a'i neilltuo'n ofalus. Byddai Ofwat mewn gwell sefyllfa i ystyried yr opsiynau posibl ar gyfer unrhyw addasiad a dylai roi cyngor i weinidogion ar y ffordd orau o gyflawni hyn, unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud mai dyma'r dull gweithredu y dylid ei fabwysiadu.
65. Byddai dulliau gweithredu amgen yn dibynnu ar aiddosbarthu'r baich ariannol ymhlith cwsmeriaid cwmni Dŵr De-orllewin Lloegr. Gellid helpu trigolion drwy gyfuniad o fesurau: defnyddio tariff tymhorol a fyddai'n codi tâl am ddefnydd ychwanegol yn ystod yr haf ar gyfradd breimiwm; defnyddio'r mesurau fforddiadwyedd a argymhellir gan dîm yr adolygiad, gyda'r pecyn llawn yn gymwys yn y De-orllewin p'un a gâi ei fabwysiadu yng ngweddill y wlad ai peidio, a mesurau effeithlonrwydd dŵr wedi'u targedu at bensynwyr.
66. O ganlyniad, **mae tîm yr adolygiad yn argymhell y dylid gofyn i Ofwat roi cyngor ar un neu ragor o'r opsiynau canlynol:**
- **Gweithredu addasiad ariannol untro neu addasiad ariannol arall gan y llywodraeth i fynd i'r afael ag amgylchiadau penodol cwmni Dŵr De-orllewin Lloegr adeg ei breifateiddio, a goblygiadau hynny i filiau dŵr yn Ne-orllewin Lloegr**
  - **Addasu biliau yn Ne-orllewin Lloegr drwy gyfraniadau gan gwsmeriaid dŵr eraill ledled y wlad;**
  - **opsiynau ar gyfer aiddosbarthu'r baich ariannol o fewn sail cwsmeriaid cwmni Dŵr De-orllewin Lloegr mewn ffordd gynyddol a chosteffeithiol, gan roi sylw, o bosibl, i faterion tymhorol a ffactorau sy'n rheoli costau a'r pecyn o fesurau fforddiadwyedd arfaethedig yn yr adroddiad hwn.**

**Ceir rhestr lawn o argymhellion terfynol tîm yr adolygiad yn Atodiad 12.**